Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
The role of arts and culture in addressing poverty and social exclusion / Rôl celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol
CWLC(5) CP11
Ymateb gan Welsh League of Hope / Evidence from Urdd Gobaith Cymru

**Ymateb Urdd Gobaith Cymru i'r alwad am dystiolaeth gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar – Rôl celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol**

1. Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad Ieuenctid Cenedlaethol Gwirfoddol. Mae 55,000 o blant a phobl ifanc Cymru yn aelodau. Nod Urdd Gobaith Cymru yw i '.. sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg i holl ieuenctid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) i ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.'

2. Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ddynion a merched ifanc i ymfalchïo yn eu gwlad, i fod yn agored i'r byd ac i ymgorffori ein hiaith a'n diwylliant, ynghyd â'r gwerthoedd cyffredinol rydym ni'n trysori yng Nghymru. Mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers iddo gychwyn yn ôl yn 1922. Ni ellir gor-bwysleisio arwyddocâd yr Urdd. Mae ei gyfraniad at genedlaethau yng Nghymru, at fywydau, hyder ac iechyd meddwl ein pobl ifanc dros y blynyddoedd wedi bod yn aruthrol.

3. **Trwy'r Urdd mae cyfle i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, pa bynnag yw eu lefel o'r Gymraeg, eu cefndir cymdeithasol a lle bynnag maent yn byw, i gael mynediad at y celfyddydau cyfrwng y Gymraeg.**

4. **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd** – Cynhelir yr Ŵyl sydd dros gyfnod o 6 diwrnod yn ystod wythnos Sulgwyn. I gyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, mae 45,000 o bobl ifanc yn cychwyn ar y daith o fewn Eisteddfodau cylch a Sir. Cynhelir dros 200 o eisteddfodau cylch a Sir ar draws Cymru, gyda chynulleidfaoedd teilwng yn cefnogi a dathlu ymwneud plant a phobl ifanc yn y celfyddydau. Eisteddfodau cylch, Sir a Chenedlaethol yr Urdd yw brif lwyfan berfformio pobl ifanc Cymru, sydd yn rhoi cyfle i bobl ifanc i arddangos a datblygu eu potensial.

5. Cyflwynir dros 20,000 o ffurflenni unigol oddi wrth ganghennau'r Urdd er mwyn cystadlu yn yr Eisteddfod, gyda dros **48,000** enw yn cael eu cofrestru i gystadlu. Mae 15,000 o gystadleuwyr yn cyrraedd Eisteddfod yr Urdd gyda 3,000 yn cyrraedd y llwyfan.

6. Mae'r Eisteddfodau'r Urdd wedi llwyddo i roi cyfleoedd i bobl ifanc i feithrin eu sgiliau celfyddydol, ymarfer eu crefft a derbyn beirniadaeth a chyngor. Mae nifer o bobl ifanc yma bellach yn enwau rhyngwladol ac yn cynrychioli gwerthoedd Cymru ar draws y Byd er enghraifft, Matthew Rhys, Connie Fisher, Ioan Gruffydd.

7. **Theatr Ieuenctid yr Urdd** – sefydlwyd yn y 1970au – dyma gyfle i bobl ifanc, creu datblygu a pherfformio. Eleni bydd 40 o bobl ifanc yn perfformio sioe maent wedi credu a chynhyrchu gyda chefnogaeth Cwmni Bara Caws. Cynhelir y perfformiadau yng Nghaernarfon ac yng Nghaerdydd yn yr hydref 2019. Mae natur, maint a hyd gynlluniau'r Cwmni yn amrywio yn ddibynnol ar y gefnogaeth ond yn y gorffennol mae wedi cynnwys perfformiadau yng Nghanolfan Mileniwm Cymru gan gyflwyno Les Miserables yn 2005 ac yn 2015.

8. Wrth i'r Urdd dathlu ei chanmlwyddiant mae trafodaethau mewn llaw i gomisiynu **cynhyrchiad newydd cyfoes, sioe lwyfan '*Teen musical'* Cymraeg** o safon y '*West End'*. Bydd dros 100 o bobl ifanc yn aelodau o'r criw llwyfan a chefn llwyfan.

9. **Celf** – Yn flynyddol mae 18,000 yn cyflwyno gwaith ar gyfer beirniadaeth yn yr Eisteddfod mewn 160 o gystadlaethau, gyda dros 400 o ddarnau celf yn cael eu harddangos yn yr arddangosfa ar faes yr Eisteddfod. Ceir ystod o gategorïau o arlunio, ffotograffiaeth, ceramig, tecstilau ayb. Rhoddir Ysgoloriaeth gwerth £2k (18-25oed) ynghyd â Medal Gelf Dylunio a Thechnoleg (dan 19) i feithrin dawn artistiaid ifanc.

10. **Llenyddiaeth** – Yn flynyddol mae dros 1,500 yn cyflwyno gwaith ar gyfer beirniadaeth yn y cystadlaethau llenyddol. Cyhoeddir cyfrol o'r darnau buddugol. Ceir ystod o gategorïau, drama, ysgrif, barddoniaeth, newyddiaduriaeth, ayb.

11. Trwy Eisteddfod yr Urdd dyfarnir prif wobrau Dyfarnir y Goron, y Gadair a'r Fedal Ddrama, Y Fedal Cyfansoddi, Y Fedal Gelf ac ysgoloriaeth Bryn Terfel.

12. **Ysgoloriaeth Bryn Terfel**, sefydlwyd ysgoloriaeth gydag arweiniad a buddsoddiad Bryn Terfel. Rhoddir ysgoloriaeth i un o enillwyr brif gystadlaethau perfformio'r Eisteddfod. Wrth ddefnyddio'r ysgoloriaeth i dalu am hyfforddiant bellach, mae enillwyr yr ysgoloriaeth wedi llwyddo i ddatblygu gyrfa perfformio lwyddiannus. Dyma rhai o'r cyn enillwyr. Fflur Wyn, Rakhi Singh a Rhys Taylor.

13. **Cyfleoedd cynhwysol** – mae rhaglen yr Eisteddfod yn cynnwys cyfleoedd i ysgolion ac unigolion sydd ag anghenion arbennig i gyrraedd prif lwyfan perfformio pobl ifanc yng Nghymru a chystadlaethau celf.

14. **Gweithio mewn Partneriaeth** – trwy weithio gyda Chwmni Disney mae detholiad o enillwyr yn cael y cyfle i gynrychioli Cymru yn yr Ŵyl Gymreig yn Disneyland Paris.

15. Dywedodd Matthew Rhys wrth gasglu ei wobr Emmy ym Medi 2018 am ei rôl yn y gyfres 'The Americans' – '*Diolch enfawr am yr holl negeseuon.... Prawf os oes angen prawf fod adnodau ysgol Sul, Rhagbrofion, Llwyfan a'u peidio, sawl cam, cylch, sir, ysgol neu Cenedlaethol os nad gallu talu ffordd.....yn Sicr yn helpu.*

16. **Gwersyll Haf Preswyl y celfyddydau** – Cynnig newydd yng Ngwersyll Caerdydd, cwrs preswyl celfyddydol i roi blas i bobl ifanc o'r celfyddydau. Gall unigolion cyflwyno cais am gymorth ariannol i fynychu'r cwrs preswyl trwy ein cronfa 'Cyfle i Bawb'

**Wrth gyflwyno'r dystiolaeth yma, teimlwn ar hyd y blynyddoedd wrth i'r Urdd partneri gyda sefydliadau cenedlaethol, yr argraff rydym wedi derbyn, yw nad ydynt yn wybodus am waith celfyddydol cyfrwng Cymraeg mae'r Urdd yn ei gyflawni gyda phlant a phobl ifanc Cymru.**

17. Mae gan Eisteddfod yr Urdd perthynas hir o dderbyn cymorth ariannol oddi wrth y Cyngor Celfyddydau o safbwynt ariannu elfennau o'r Eisteddfod ei hun a hefyd Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd, ac ambell brosiect cymunedol. Rydym fel mudiad yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth dros y blynyddoedd sydd wedi ein galluogi i gynnig cyfleoedd amrywiol i aelodau'r Urdd trwy Gymru.

18. O safbwynt Eisteddfod yr Urdd, mae'r Cyngor Celfyddydau wedi cefnogi ein sioeau cynradd ac ieuenctid a berfformir gan bobl ifanc y fro sy'n croesawu'r Eisteddfod ac wedi bod yn noddi'r llwyfan berfformio ar faes yr Eisteddfod lle cynhelir perfformiadau gan artistiaid amrywiol, ysgolion lleol a chystadlaethau.

(e.e. cystadlaethau offerynnol, cystadlaethau roc a phop). Mae'r Urdd yn cydnabod nad oes gennym fel unrhyw un corff arall, yr hawl ddwyfol i dderbyn cymorth ariannol oddi wrth y Cyngor, ond credwn hefyd ei fod yn bwysig i Gyngor Celfyddydau Cymru gefnogi prosiectau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

19. Os nad ydym yn derbyn cymorth ariannol oddi wrth y Cyngor ni fydd modd i ni gynnig cyfleoedd i bobl mewn tlodi nac i neb arall chwaith. Mae holl weithgareddau Eisteddfod yr Urdd yn agored i bawb ac nid oes tâl ychwanegol i fod yn rhan, e.e. o'r sioeau. Mae angen cyfraniad ariannol i fod yn rhan o'r Cwmni Theatr ac rydym yng nghynllun diweddara'r Cwmni, wedi cynnig ysgoloriaethau er mwyn sicrhau bod aelodau o deuluoedd difreintiedig yn medru bod yn rhan o'r cynllun.

20. Nôl yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf, sefydlodd yr Urdd Cwmni Theatr Ieuenctid Cenedlaethol. Y rheswm sefydlwyd y Cwmni a'r rheswm mae'r Cwmni yn parhau hyd heddiw yw'r ffaith nad oes yr un Cwmni Theatr Ieuenctid Cenedlaethol arall sy'n perfformio a trwy gyfrwng y Gymraeg yn bodoli.

21. Hynny yw, pe bai 'na Gwmni Theatr Ieuenctid Cenedlaethol sy'n cynnig perfformiadau a phrofiadau theatrig trwy gyfrwng y Gymraeg mewn bodolaeth, ni chredwn y byddai'r Urdd yn cynnal y Cwmni. Oes, mae cwmnïau eraill dros y blynyddoedd wedi perfformio pethau yn ddwyieithog, ond yr Urdd yw'r unig gorff sy'n cynnig yr holl brofiadau trwy'r Gymraeg, hynny yw, y perfformio, yr ymarfer, cefn llwyfan, ochr dechnegol, y cymdeithasu – y cyfan yn y Gymraeg.

22. Ein prif rwystr gyda'r Cyngor Celfyddydau yw eu diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth ar adegau o'r hyn mae'r Urdd yn cyflawni yn y maes celfyddydol. Mae canran sylweddol o blant a phobl ifanc Cymru yn cael eu profiadau celfyddydol cyntaf oherwydd eu bod yn cystadlu mewn Eisteddfod Gylch. Yn ddieithriad mae perfformwyr llwyddiannus ein cenedl yn canmol y system 'eisteddfodol' sydd gennym yng Nghymru fel sylfaen arbennig, sylfaen sydd wedi sicrhau eu bod bellach yn perfformio ar lwyfannau'r trwy'r byd.

23. Yn adroddiad Cyngor y Celfyddydau, Arolwg Omnibws y Plant 2017, cyhoeddwyd yn Mai 2018, nid oes sôn na chydnabyddiaeth am yr Eisteddfod fel profiad celfyddydol i blant a phobl ifanc.

24. Mae 'na deimlad bod y ‘celfyddydau’ gyda’r Eisteddfod ychydig yn wahanol i’r celfyddydau go iawn. Nid yw’n cael ei gydnabod am y profiadau gwerthoedd mae’n cynnig i blant a phobl ifanc o 8 i 25 oed.  Mae ein profiad ac arbenigedd i gynnig dros 200 o brofiadau celfyddydol lleol ar draws Cymru o fewn cyfnod byr o 3 mis, yn unigryw i Gymru.

25. Nid yw hyn yn newydd i’r Urdd, rydym wedi llwyddo i arddangos a phrofi cyfraniad darpariaeth a phrofiadau’r Urdd i blant a phobl Ifanc.  Er enghraifft, degawdau yn ôl, roedd 'na deimlad yn y maes gweithgareddau awyr agored nad oedd yr hwylio, a’r canŵio a’r mynydda oedd yn cael eu cynnal yn ein gwersylloedd yr un peth â’r gweithgareddau go iawn oedd yn digwydd mewn canolfannau awyr agored eraill. Roedd yr un ymdeimlad yn y maes chwaraeon - doedd chwaraeon yr Urdd ddim yr un peth â chwaraeon go iawn a gynhaliwyd gan gyrff eraill! Ond erbyn hyn, mae chwaraeon yn Urdd a’r gweithgareddau awyr agored yn cael eu hystyried yn rhan o’r brif ffrwd ac yn derbyn cymorth gan awdurdodau lleol i gynnal gweithgareddau ar eu rhan.

26. Er ein holl brofiad, ein trefn broffesiynol, cannoedd o wirfoddolwyr sydd yn ein cefnogi, a safon uchel y cystadlu, nid ydym wedi llwyddo i gyrraedd yr un canlyniad yn y maes celfyddydol.

27. Dros y blynyddoedd, mae’r Urdd wedi gorfod esbonio mwy nac unwaith i swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru, nid yn unig beth yw mudiad yr Urdd a beth yw’r phenonomen ‘eisteddfod’, ond esbonio beth yw Cymru. Rydym hefyd wedi gofyn mwy nac unwaith am y cyfle i annerch aelodau'r Cyngor ei hunain er mwyn i ni gyflwyno trosolwg o waith yr Urdd i’r aelodau ei hun, ac er bod ambell aelod dros y blynyddoedd wedi bod gwbl hyddysg yn yr Urdd a thraddodiadau celfyddydol Cymru, ni allwn ddweud hynny am bob un.

28. Rydym hefyd wedi profi mwy nac unwaith diffyg presenoldeb llwyr aelodau’r Cyngor a’r swyddogion yng ngweithgareddau’r Urdd sydd wedi derbyn cymorth ariannol oddi wrth y Cyngor. Eto nid ydym yn dweud y dylai pob aelod o’r Cyngor neu’r swyddogion fod yn bresennol ym mhopeth, ond credwn y byddai presenoldeb yn fodd i ni ddangos bod y buddsoddiad yn y Cwmni Theatr, yn sioeau’r Eisteddfod neu ar faes yr Eisteddfod, yn llwyddo.

29. Mae gweithgareddau'r Urdd yn darparu gwerth economaidd i ardaloedd yng Nghymru, wrth i’r Eisteddfod deithio ar draws Cymru.  Mewn adroddiad annibynnol ar Effaith Economaidd Urdd Gobaith Cymru, (yma) cynhyrchodd

Eisteddfod Lleol a Chenedlaethol yr Urdd 2018 werth economaidd o £11.5m yng Nghymru a £5.5m yn yr ardal leol (Brycheiniog a Maesyfed).